## Y Gêm Genedlaethol?

Mae pobl, am ryw reswm, yn meddwl mai rygbi yw gêm genedlaethol Cymru.  Dim o gwbl!  Cerddwch chi drwy'r parc, ar gae ysgol amser cinio neu ar stryd hyd yn oed, pêl droed mae'r Cymry yn ei chwarae, nid rygbi.  Yn Lloegr y dechreuodd rygbi wrth i William Webb-Ellis afael yn y bêl a rhedeg, a hynny ar ganol gêm bêl droed yn ysgol fonedd Eton.  Roedd y Cymry yn chwarae fersiwn gynnar o bêl droed, sef cnapan, ganrifoedd yn ôl.

Mae'r Cymry'n hoffi cael rheswm i fynd i Gaerdydd ar ddiwrnod gêm ryngwladol ond does dim llawer o gefnogaeth i rygbi drwy'r flwyddyn.  Ar gyfartaledd mae 8,863 o gefnogwyr yn mynd i weld Gleision Caerdydd yn chwarae rygbi tra bod 23,194 yn mynd i weld Dinas Caerdydd yn chwarae pêl droed,  8,265 yn mynd i weld y Gweilch ond 15,558 yn mynd i weld Dinas Abertawe yn y prif gynghrair.  Mae'n amlwg o'r gefnogaeth pa un yw'r gêm genedlaethol.

Un peth sy'n dangos bod diddordeb mawr mewn pêl droed yw llwyddiant y tîm cenedlaethol. Pan fyddan nhw'n gwneud yn dda mae'r cefnogwyr yno yn gweiddi dros eu tîm.  Pan fu bron i Gymru lwyddo i fynd i rowndiau terfynol Ewrop ym Mhortiwgal yn 2004 roedd cefnogwyr yn llenwi Stadiwm y Mileniwm yn ystod gemau cartref.  Yn awr, â hwythau wedi cyrraedd rowndiau terfynol Ewrop yn 2016 bydd y cefnogwyr yn heidio i Ffrainc.  Mae Cymru wedi cyrraedd y safle uchaf erioed yn rhestr detholion Ewrop.  Sut **na** all pêl droed fod y gêm genedlaethol?



GwE Tuag at Ragoriaeth
YSGOL BOTWNNOG
YSGOL DYFFRYN OGWEN
YSGOL TRYFAN
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government